DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, **The Courtyard Dental Care**

2 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3933-7


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun ........ 5

4. Crynodeb ........ 6

5. Canfyddiadau ........ 7

Profiad y Claf ........ 7

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 15

6. Y Camau Nesaf ........ 16

## 1. Cyflwyniad

Cyflawnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn The Courtyard Dental Care, 4 Rachel Close, Danescourt, CF5 2SH yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 2 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol sy'n ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Courtyard Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Danescourt, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Courtyard Dental Care yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae Courtyard Dental Care hefyd yn bractis hyfforddi sy'n cefnogi deintyddion newydd gymhwyso (Sylfaen) sy'n ymgymryd â'u blwyddyn gyntaf mewn deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd yn y brifysgol), o dan oruchwyliaeth hyfforddwr penodedig.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau brif ddeintydd, dau ddeintydd cysylltiol, deintydd (Sylfaen), chwe nyrs ddeintyddol (mae dwy o'r rhain dan hyfforddiant), rheolwr y practis, hylenydd deintyddol a derbynnydd.

Mae Courtyard Dental Care yn ddeintyddfa annibynnol sefydledig. Mae'r prif ddeintyddion yn chwarae rhan weithredol wrth redeg a rheoli'r practis deintyddol o ddydd i ddydd ac yn gweithio'n agos gyda rheolwr y practis yng nghyswllt agweddau ar redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Darperir ystod lawn o wasanaethau deintyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau
- Corunau a gwaith pontydd

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Courtyard Dental Care yn cwrdd â’r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Heb eithriad, dywedodd cleifion a gyflawnodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Courtyard Dental Care.

Gwelsom natur gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol a ddefnyddiai pob aelod o'r tîm gyda’r cleifion.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau triniaethau. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a’u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Roedd Courtyard Dental Care yn bractis sefydledig ac yn cael ei redeg yn dda gan ddau brif ddeintydd, rheolwr y practis a thîm o staff brwdfrydig. Roedd gan y practis amryw o brosesau sicrhau ansawdd a thriniaethau clinigol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus ac yn cael digon o gefnogaeth yn eu rolau, a bod ganddynt fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi perthnasol.

Ystyriwyd bod adeiladau’r practis deintyddol yn darparu amgylchedd glân, croesawgar a diogel i gleifion dderbyn gofal a thriniaethau.

Mae mynediad i’r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion eraill sydd ag anawsterau symudedd.

Gan na nodwyd unrhyw feysydd i’w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, nid yw’n ofynnol i’r practis gwblhau cynllun gwella.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Heb eithriad, dywedodd cleifion a gyflawnodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Courtyard Dental Care.**

**Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd pob aelod o'r tîm deintyddol yn ei ddefnyddio tuag at y cleifion.**

Darparodd AGIC holiaduron i'r practis i'w llenwi gan gleifion cyn yr archwiliad. Dychwelwyd un ar bymtheg o'r holiaduron hynny. Heb eithriad, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn y practis.

Cadarnhadodd yr holl gleifion eu bod wedi cael croeso gan y tîm staff a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth.

Rhoddodd nifer o gleifion sylwadau cadarnhaol ychwanegol i ni. Gwelir sampl o'r rhain isod:

> 'Rydw i wedi gweld y practis yn tyfu ac yn datblygu i fod yn ganolfan rhagoriaeth. Mae'r staff yn groesawgar a gofalus – a'r ddeintyddiaeth o'r radd flaenaf. Rwy'n fodlon iawn ar yr holl driniaeth a gefais'
>
> 'Rydw i wedi bod yn fodlon ar fy nhriniaeth yma bob amser'
>
> 'Gofal proffesiynol, effeithlon a chyfeillgar'
>
> 'Hyfryd a chyfeillgar.Gwasanaeth gwych'
>
> 'Rydw i mor falch fy mod wedi cael fy nerbyn fel claf yma!'

Awgrymodd dau glaf eu bod wedi profi rhywfaint o oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad, er nad oedd tuedd i hyn fod yn fwy na deng munud.

Nododd dau glaf a lenwodd un o'n holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau'. Fodd bynnag, gwelsom arwydd wrth fynedfa'r practis oedd yn cynnwys rhif cyswllt mewn achos brys a chadarnhawyd bod rhif cyswllt yn cael ei ddarparu yn y neges ar beiriant ateb y practis. Yn ogystal â hynny, roedd taflen wybodaeth y practis yn rhoi cyngor i gleifion ar sut i gael mynediad at driniaeth mewn achos brys y tu allan i oriau gwaith arferol.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym hefyd y trafodir opsiynau triniaeth gyda chleifion a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi'i chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Cadarnhaodd sgwrs gydag aelod o'r tîm deintyddol bod apwyntiadau mewn argyfwng ar gael bob dydd, gan alluogi cleifion i gael eu gweld ar frys os oes angen.

Roedd gan y practis wefan fanwl a thaflen wybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth sylfaenol am y gwasanaeth ar gael hefyd drwy wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Dywedodd cleifion eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd hefyd ganlyniad arolygiadau boddhad misol cleifion y practis oedd wedi cael eu cynnal ers mis Awst 2014. Mae'r holl ymatebion hyd heddiw wedi bod yn gadarnhaol iawn. Hefyd, roedd gan y practis flwch awgrymiadau yn y dderbynfa er mwyn annog cleifion i roi eu barn yn barhaus. Ystyriwyd ymatebion a dderbyniwyd gan reolwr y practis yn rheolaidd.

Pan ofynnwyd am wneud cwynion am eu gofal neu eu triniaeth, dywedodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod naill ai'n gwybod sut i fynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda staff y ddeintyddfa, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Dywedodd tri chlaf nad oeddent yn gwybod sut i fynegi pryderon neu wneud cwyn. Gwelsom boster cwynion yn cael ei arddangos ym man aros y cleifion sydd (yn gadarnhaol) yn cynnwys amserlen fyrrach ar gyfer cydnabod a datrys cwynion na'r rheiny sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau'r GIG. Fodd bynnag, roedd maint y geiriau ar y poster yn fach. Felly, siaradwyd â rheolwr y practis, ac yn dilyn hynny cynhyrchodd boster mewn print mwy o faint yn ogystal ag ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymdeithasol lleol ac Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) at y poster. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol o'u hawliau. Cynhyrchwyd gweithdrefn gwyno ar wahân hefyd i gynorthwyo cleifion sy'n derbyn deintyddiaeth breifat fel sydd yn angenrheidiol yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau triniaethau.Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

Amlygodd trafodaethau â'r tîm deintyddol y pwyslais a roddwyd ganddynt ar drefnu a chyflenwi gofal a thriniaeth i gleifion mewn ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy wirio hanes meddygol pob claf yn ystod pob ymweliad, gan sicrhau bod newidiadau a pheryglon posibl i'w hiechyd yn cael eu cydnabod a'u cofnodi.

Dogfennaeth/Cyfarpar Radiograffeg

Gwelwyd bod y trefniadau a weithredir o ran defnyddio cyfarpar pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant i aelodau staff perthnasol. Arsylwyd bod y ffeil gwarchod ymbelydriad yn cynnwys gwybodaeth fanwl a phenodol o ran y defnydd o gyfarpar pelydr-X. Roedd yn amlwg hefyd bod y deintyddion wedi cofnodi digon o wybodaeth ar y cyfan i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-X deintyddol penodol. Yn ogystal, roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith er mwyn sicrhau bod ansawdd llun peldyr-X claf yn cael ei raddio a'i gofnodi. Gwelsom fod arwyddion yn ymwneud â pherygl ymbelydriad i'w gweld ym mynedfa'r tair deintyddfa ar y safle.

Dadebru/Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys/Cymorth Cyntaf

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion); roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Hefyd, roedd gwiriadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys yn barod i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol ar adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a dadebru brys. Yn ogystal â hynny, roedd tri aelod o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod rhywun bob amser yn gweithio yn y practis oedd â sgiliau o'r fath.

Gwelwyd bod cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n ddiogel a bod cofnodion wrth law i gadarnhau bod gwiriadau ar waith er mwyn sicrhau bod cyffuriau'n cael eu hamnewid cyn y dyddiad dod i ben.

Trin, storio a gwaredu  gwastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus

Gwelsom fod cytundeb parhaus ar waith er mwyn sicrhau bod gwastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus yn cael eu trin, eu storio a’u gwaredu mewn modd priodol. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel hyd nes y caiff ei gasglu.

Dadlygru offer deintyddol

Roedd iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff yn cael eu hyrwyddo a’u gwarchod. Mae hyn oherwydd ein bod wedi ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir hefyd yn ddadheintio) a gwelsom fod gan y practis ddull trylwyr a sefydledig ar yr agwedd hon o ddarparu gwasanaeth. Arweiniodd sgyrsiau â dwy nyrs ddeintyddol at ddisgrifiad llawn a boddhaol o’r broses ddadheintio sydd ar waith.

Roedd ystafell arbennig ar gyfer dadheintio yn y practis (ac ystyrir hyn yn arfer da). Roedd hyn o gymorth i staff wrth wahanu offer glân ac offer budr er mwyn lleihau’r risg o draws-halogiad. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i gludo offer deintyddol o bob un o’r ystafelloedd triniaeth deintyddol i’r ystafell ddadheintio yn rheolaidd yn ystod y diwrnod gwaith.

Gwelsom fod rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith o ran y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau offer deintyddol. Mae’r rhaglen cynnal a chadw yn cynnwys archwiliadau offer ar ddechrau a diwedd y dydd. Er enghraifft, defnyddiodd y tîm deintyddol stripiau profi er mwyn sicrhau bod y bath uwchsonig[4] yn parhau i fod yn effeithiol a chofnodwyd y canlyniadau hyn. Hefyd, cynhaliwyd gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y ddau awtoclaf yn cael eu defnyddio’n effeithiol[5].

Arsylwyd fod staff yn gwisgo menyg a ffedogau untro ac amddiffynwyr llygaid ar adegau perthnasol yn ystod eu gwaith. Yn ogystal, roedd cyfarpar diogelu llygaid ac eitemau untro ar gael i amddiffyn y cleifion a'u dillad. Canfuwyd gennym fod lle storio priodol ar gyfer offer deintyddol a chyfleusterau ymolchi dwylo penodol ym mhob ystafell driniaeth.

---

[4] Mae **bath uwchsonig** yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer 20–400 cilohertz) a sylwedd glanhau priodol.

[5] Siambr bwysedd yw **awtoclaf** a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Gwelsom fod yr offer a oedd wedi'i bacio a'i gadw yn barod i'w ailddefnyddio yn cynnwys dyddiadau dod i ben priodol.

Cyfleusterau clinigol

Roedd yr holl gyfarpar ar safle'r ddeintyddfa'n ymddangos i fod mewn cyflwr da. Edrychom hefyd ar gofnodion sy'n cael eu cadw yn y practis yn ymwneud â chynnal a chadw a thrin cyfarpar. Canfuwyd fod yr holl gofnodion o'r fath yn gyfredol ac yn ddilys.

Roeddem yn gallu cadarnhau y cynhelir profion ar offer symudol yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Cofnodion Cleifion

Aseswyd a chofnodwyd gofynion gofal deintyddol a thriniaeth cleifion yn unigol cyn darparu triniaeth. Gwnaethom adolygu sampl o 15 o gofnodion deintyddol a chanfuwyd bod eitemau'n ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Yn ogystal, gwelwyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE[6]) wedi eu cofnodi o ran ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag oedolion, fel sy'n ofynnol dan y canllawiau clinigol.

Canfuwyd fod y tîm deintyddol yn gwneud defnydd da o dempledi cyfrifiadur i gofnodi gofal a thriniaeth cleifion sydd wedi'u cynllunio; a gwybodaeth unigryw'n cael ei hychwanegu yn ystod ymgynghoriadau. Golygai hyn bod cofnodion cleifion yn glir ac yn unigol berthnasol yn unol â'r canllawiau arfer da.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel yn y practis ar bapur ac yn electronig.

---

[6] Offer sgrinio deintyddol a ddefnyddir i adnabod clefyd y deintgig yn gynnar yw'r Archwiliadau Periodontol Sylfaenol. Gall deintyddion roi cyngor i chi wedyn ynglŷn â sut i frwsio'ch dannedd a'r ffordd orau o ddefnyddio edau dannedd.
http://www.bdasmile.org/adults/adults.cfm?contentid=1097&contentparentid=1034

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd Courtyard Dental Care yn bractis sefydledig ac yn cael ei redeg yn dda gan ddau brif ddeintydd, rheolwr y practis a thîm o staff brwdfrydig.Roedd gan y practis amryw o brosesau sicrhau ansawdd a thriniaethau clinigol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.**

**Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus ac yn cael digon o gefnogaeth yn eu rolau, a bod ganddynt fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi perthnasol.**

Mae Courtyard Dental Care yn bractis annibynnol sefydledig. Mae'r prif ddeintyddion yn chwarae rhan weithredol wrth redeg a rheoli'r practis o ddydd i ddydd; gan weithio'n agos gyda rheolwr y practis a thîm staff proffesiynol a brwdfrydig.

Materion staff

Mae Courtyard Dental Care yn bractis hyfforddi sy'n cefnogi deintyddion newydd gymhwyso (Sylfaen) sy'n ymgymryd â'u blwyddyn gyntaf mewn deintyddiaeth (ar ôl cwblhau gradd yn y brifysgol), o dan oruchwyliaeth hyfforddwr penodedig.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw'r practis yn defnyddio staff deintyddol asiantaeth a bod lefelau salwch/ absenoldeb staff yn isel. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Roedd gan y tîm deintyddol y sgiliau, yr hyder a'r cymhwysedd gofynnol i fodloni anghenion gofal a thriniaeth cleifion. Er enghraifft, canfuwyd bod y ganolfan ddeintyddol wedi datblygu rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau ffordd i unrhyw aelod newydd o'r tîm deintyddol ddod yn gyfarwydd â'r prosesau a gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â gwasanaethau cleifion.

Hefyd, dywedodd staff nyrsio deintyddol y siaradom â hwy, eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu gwaith. Dywedasant wrthym hefyd eu bod, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff misol lle roeddent yn cael cyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ganolfan ddeintyddol, a oedd yn amlygu'r pynciau a'r materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm.

Gwelwyd wrth archwilio tystysgrifau hyfforddi oedd yn gysylltiedig â thri aelod o staff eu bod wedi cyflawni hyfforddiant priodol yn ystod 2014 a 2015 a oedd yn cynnwys sesiynau am adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR), trefniadau amddiffyn plant ac oedolion (diogelu) a diheintio/dadheintio offer deintyddol. Canfuwyd ymhellach fod y practis yn gosod pwyslais sylweddol ar hyfforddi a datblygu yn gyffredinol; cefnogwyd staff i fynychu sesiynau hyfforddi perthnasol o'u dewis eu hunain i'w cefnogi yn eu gwaith.

Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis, cadarnhawyd bod staff yn cael arfarniad blynyddol, ac roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pa un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd yn ofynnol yn y dyfodol.

Gwelsom bod tystiolaeth gyfredol yn y practis o frechiad a lefelau imiwnedd Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff. Cadarnhaodd sgwrs â rheolwr y practis hefyd fod trefniadau addas wedi'u sefydlu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn cael brechiadau, cymorth a chyngor gan yr adran iechyd galwedigaethol pan fo angen hynny. Golyga hyn fod y ganolfan ddeintyddol wedi cymryd camau priodol tuag at ddiogelu staff a chleifion rhag firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Yn ystod trafodaeth â nyrsys deintyddol a staff y dderbynfa, gwelwyd eu bod yn teimlo'n hyderus i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Hefyd, gwelwyd bod gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn cynnwys manylion am y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau allanol eraill mewn achos lle mae'n bosibl i staff deimlo'r angen i fynegi pryderon am ddulliau cyflenwi'r gwasanaeth y 'tu allan' i'r tîm deintyddol.

<u>Rheolaeth Glinigol/trefniadau Sicrhau Ansawdd</u>

Diogelwyd hawliau cleifion, iechyd deintyddol a lles pennaf gan bolisïau a gweithdrefnau cadarn a oedd wedi'u deall, eu rhoi ar waith a'u monitro gan y tîm deintyddol. Roedd hyn oherwydd ein bod wedi gallu cadarnhau bod y practis yn cael ei redeg yn dda gan fod dull gweithredu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn seiliedig ar amryw o bolisïau, gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflwyno mewn modd diogel ac yn amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau gydag aelodau o'r tîm deintyddol.

Derbyniwyd copi o archwiliad rheoli heintiau a gwblhawyd yn ystod mis Rhagfyr 2014 gan ddefnyddio teclyn cydnabyddedig wedi'i alinio'n benodol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd hyn wedi galluogi'r tîm deintyddol i hunanasesu eu practis ar sail y canllawiau,

ac i ddatblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses wella barhaus ofynnol. Datgelodd ein trafodaethau gyda’r tîm deintyddol hefyd fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd, drwy gynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer deintyddol.

Darparwyd copïau i ni o archwiliadau wedi’u cyflawni mewn perthynas â chyfraddau cleifion nad oeddent yn troi fyny (Gorffennaf 2014). Cadarnhaodd canlyniad yr archwiliad bod polisi’r practis yn gweithio’n effeithiol. Yn ogystal, cyflawnodd y practis archwiliad o amseroedd aros a phelydr-X yn ôl eu trefn yn ystod 2014. Roeddem yn gallu cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u llunio, bod camau wedi'u cymryd yn dilyn pob archwiliad; ac y gwnaed cymaint o welliannau ag yr oedd yn bosibl.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi’u harddangos yn amlwg yn y dderbynfa o ran y ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis, fel sy’n angenrheidiol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

O archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio yn brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Ystyriwyd bod adeiladau'r practis yn darparu amgylchedd glân, croesawgar a diogel i gleifion dderbyn gofal a thriniaeth.**

**Mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion eraill sydd ag anawsterau symudedd.**

Lleolir Courtyard Dental Care yn ardal breswyl sefydledig Danescourt; maesdref ar gyrion canol dinas Caerdydd. Un llawr oedd i adeilad y practis, ac roedd tair deintyddfa. Nid oedd maes parcio pwrpasol, ond roedd digon o leoedd parcio ar gael yn rhad ac am ddim mewn meysydd parcio cyfagos.

Roedd mynediad i'r practis yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn ac roedd fframiau drysau yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd modd cael mynediad at yr ystafell aros a'r dderbynfa hefyd yn y cyswllt hwn.

Roedd un toiled i'r ddau ryw i'w ddefnyddio gan gleifion a staff yn y practis. Roedd y cyfleuster yn lân, o faint addas ac roedd cyfleusterau golchi dwylo addas mewn perthynas â rheoli heintiau. Mae'r toiled wedi'i addasu gyda chanllawiau i gynorthwyo cleifion i symud yn ddiogel. Hefyd, roedd cloch alw mewn achos brys ar gael.

Roedd y dderbynfa/yr ystafell aros yn gyfforddus, yn groesawgar ac o faint derbyniol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth a staff oedd yn gweithio yn y dderbynfa.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn lân ac yn daclus drwyddo draw.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis gyda'r oriau agor, y rhif cyswllt mewn achos brys y tu allan i oriau arferol, ac enwau/cymwysterau'r deintyddion.

Roedd allanfeydd tân a chamau i'w cymryd pe byddai tân wedi'u harddangos yn amlwg yn y safle.

## 6. Y Camau Nesaf

Gan na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella.